**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/2138/23

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddHealth@senedd.wales

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
SeneddPAPA@senedd.wales

24 Awst 2023

Annwyl Russell a Mark,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf, ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r ddogfen amgaeedig yn cynnwys fy ymateb i bob un o'r pwyntiau.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi, ac rwy'n hapus i roi rhagor o wybodaeth i chi yn ôl yr angen.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**1. Beth fydd strwythur a phroses Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru / Weinidogol o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Cynllun Ymateb Sefydliadol i Fesurau Arbennig.**

Ymateb

Mae'r fframwaith Mesurau Arbennig yn nodi'n glir y rhesymau dros uwchgyfeirio'r bwrdd iechyd a'r meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau. Bydd hyn yn arwain yr ymyrraeth Mesurau Arbennig ar gyfer gweddill 2023. Bydd yn cael ei adnewyddu ym mis Ionawr 2024 yn dilyn asesiad o'r cynnydd. Caiff blaenoriaethau a ffocws eu pennu ar gylch 90 diwrnod y cytunwyd arno fel yr amlinellir yn y Datganiad Ysgrifenedig ar 6 Gorffennaf 2023 Datganiad Ysgrifenedig: Mesurau Arbennig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - adroddiad cynnydd chwarterol (6 Gorffennaf 2023) | LLYW. CYMRU. Gellir gweld y Fframwaith Mesurau Arbennig drwy'r un ddolen.

Nid yw gosod bwrdd iechyd mewn Mesurau Arbennig yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cymryd drosodd y gwaith o redeg y bwrdd iechyd o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y bwrdd yw hynny o hyd. Rôl Llywodraeth Cymru yw darparu goruchwyliaeth, sicrwydd a her lle bo'n briodol i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

Mae Bwrdd Sicrwydd Mesurau Arbennig wedi'i sefydlu, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn cefnogi'r bwrdd iechyd i benderfynu pa gamau sy'n angenrheidiol i lywio llwybr effeithiol a chynaliadwy allan o Fesurau Arbennig. Cyfarfu'r bwrdd sicrwydd am yr eildro ar 26 Mai a bydd yn cyfarfod eto ym mis Awst. Bydd y bwrdd sicrwydd hefyd yn fy hysbysu, drwy sianeli llywodraethiant y cytunwyd arnynt, a oes camau priodol yn cael eu cymryd.

Yn ogystal â'r bwrdd sicrwydd, mae'r bwrdd iechyd yn mynychu Bwrdd Perfformiad ac Ansawdd Integredig misol. Mae hyn yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru ac mae'n darparu asesiad parhaus o'r cynnydd sy'n cael ei wneud. Cydategir hyn gan gyfarfodydd sicrwydd ychwanegol ar feysydd sy'n peri pryder megis gwasanaethau fasgwlaidd, offthalmoleg, gofal wedi'i gynllunio ac Ysbyty Glan Clwyd ymhlith eraill. Mae cyfarfodydd wythnosol rhwng swyddogion a staff y bwrdd iechyd. Fel gyda phob bwrdd iechyd, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfarfod JET (cyfarfod y Cyd-dîm Gweithredol) ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn.

Yn bersonol, rwyf yn cadeirio Fforwm Gwella Mesurau Arbennig; mae'r fforwm hwn wedi cyfarfod bedair gwaith. Bydd hwn yn parhau i gyfarfod bob deufis. Drwy'r cyfarfod hwn â Chadeirydd, Aelodau Annibynnol ac Aelodau Gweithredol y Bwrdd yr wyf yn cael sicrwydd, neu fel arall, fod cynnydd yn cael ei wneud. Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS) hefyd yn mynychu'r fforwm hwn, yn ogystal â swyddogion eraill Llywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd yn cyfarfod yn fisol yn uniongyrchol â Chadeirydd y bwrdd iechyd lle'r wyf yn trafod cynnydd a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r bwrdd iechyd.

Ble bynnag y bo modd mae'r ddau ohonom yn ymweld â safleoedd amrywiol yn y rhanbarth. Yn fwyaf diweddar, roeddwn i yno rhwng 24 a 26 Gorffennaf 2023 ac ymwelais â'r tair Cymuned Gofal Iechyd Integredig. Ymwelodd y Dirprwy Weinidog â'r rhanbarth ar 2 Awst 2023.

**2. Pa rôl y bydd y Tîm Ymyrraeth a Chymorth yn ei chwarae wrth adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd.**

Ymateb

Mae nifer o unigolion yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i gefnogi'r bwrdd yn ei daith wella. Mae rhai wedi cael eu penodi'n Gynghorwyr Annibynnol ac eraill fel cymorth gweithredol i'r sefydliad. Ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru, hwn yw'r tîm Ymyrraeth a Chymorth. Mae cyfarfodydd rheolaidd â'r bwrdd iechyd ac ar wahân â Llywodraeth Cymru i uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder Mae pob aelod o'r tîm yn darparu adroddiad cryno ar ddiwedd pob mis. Mae pum aelod o'r tîm hwn wedi'u comisiynu tan ddiwedd Awst 2023, dau tan fis Medi 2023 a'r tri arall tan fis Mawrth 2024.

Caiff trafodaethau eu cynnal â'r bwrdd iechyd ynghylch y cymorth parhaus y mae arnynt ei angen o fis Medi 2023.

Yn anffodus, bu farw Geraint Evans, un o'r Cynghorwyr Annibynnol yn ddiweddar.

**3. Rhowch wybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i benodi'r aelodau annibynnol dros dro. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:**

- **Sut y canfu Llywodraeth Cymru ddarpar aelodau i'w penodi, a pha feini prawf a ddefnyddiwyd i ganfod addasrwydd y rhai a benodwyd i'r rolau.**

Ymateb

Wrth ystyried gofynion bwrdd newydd posibl ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, roedd swyddogion yn glir ynghylch y priodoleddau a'r sgiliau y byddai angen i'r Cadeirydd newydd a'r Aelodau Annibynnol feddu arnynt. Un o'r prif ofynion oedd yr angen brys i newid y diwylliant ar draws y sefydliad ac roeddwn yn glir bod angen i hyn ddechrau ar frig y sefydliad.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r unigolion hynny a allai, yn seiliedig ar eu gwybodaeth am eu rolau a'u profiad presennol a blaenorol, fod yn addas ar gyfer rôl y Cadeirydd neu'r Aelodau Annibynnol.

Roedd y Cadeirydd Dros Dro eisoes wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer penodiad cyhoeddus ar y lefel hon yn dilyn ei gais i fod yn Is-gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd ganddo swydd gyhoeddus yn Awdurdod Cyllid Cymru ac mae'n gyn Arweinydd Cyngor. Roedd ei brofiad fel Arweinydd Cyngor, ac fel un o drigolion Gogledd Cymru, yn dangos ei ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r bwrdd iechyd.

Y farn oedd ei bod yn bwysig bod pob un a gâi ei benodi yn gallu dangos eu profiad o wasanaethu fel aelodau bwrdd neu ymddiriedolwyr, ac os oes modd, i ddangos

cysylltiad â Gogledd Cymru am eu bod yn preswylio yno ar hyn o bryd neu oherwydd cysylltiadau proffesiynol, teuluol neu ddiwylliannol blaenorol.

- **Pa brosesau sydd ar waith i nodi unrhyw fuddiannau neu wrthdaro buddiannau perthnasol a allai effeithio ar benodiad aelodau annibynnol dros dro, eu gallu i gyflawni'r rôl, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni'r rôl. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw drefniadau sydd ar waith ar gyfer datrys unrhyw wrthdaro neu fuddiannau o'r fath sy'n anghydnaws â phenodiad, a/neu dryloywder wrth gofrestru gwrthdaro buddiannau nad ydynt yn atal y penodiad ond sydd, serch hynny, yn berthnasol i allu aelodau'r Bwrdd i gyflawni, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni, eu rôl.**

Ymateb

Gofynnir i bob penodai cyhoeddus gwblhau ffurflen fonitro wleidyddol a ffurflen gwrthdaro buddiannau wrth gael eu penodi gan yr Uned Penodiadau Cyhoeddus. Yn ogystal, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o'r bwrdd lenwi Ffurflen Datgan Buddiant yn unol â'u polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain. Cofnodir gwybodaeth a ddatgenir ar Gofrestr Datgan Buddiant a gynhelir gan y bwrdd iechyd.

Gellir gweld y Gofrestr Datgan Buddiant ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy'r ddolen ganlynol:

bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/dosbarth-chwech-rhestri-a-chofrestri/dosbarth-chwech-assets/cofrestr-datganiadau-ynghylch-buddiannau-gan-aelodau-bwrdd-bipbc-2023-24/

Lle y nodir gwrthdrawiad buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig, cymerir camau priodol i liniaru hyn. Yn achos y Cadeirydd dros dro, canfuwyd ei bod yn debygol y byddai gwrthdaro ynghylch ymrwymiad amser gofynnol rôl y Cadeirydd Dros Dro ac wedi hynny fe ymddiswyddodd o'i swydd gydag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Lle bo'r gwrthdrawiad gwirioneddol neu ganfyddedig yn ymwneud ag Aelod Annibynnol, mae'r Cadeirydd yn trafod hyn â'r unigolyn dan sylw cyn iddo gael ei benodi ac yn cytuno ar y camau gofynnol i sicrhau bod y bwrdd yn agored ac yn dryloyw yng ngweithrediad y bwrdd ac unrhyw swyddogaethau eraill y gallant eu cyflawni. Bydd y camau gofynnol yn dibynnu ar y gwrthdrawiad posibl a'r rôl sy'n cael ei chyflawni gan yr aelod annibynnol. Gallai hyn gynnwys ymatal rhag unrhyw drafodaethau lle y gallai fod gwrthdrawiad, sicrhau nad ydynt yn aelodau o bwyllgorau lle gall y gwrthdrawiad godi a pheidio ag ymweld â neu ymwneud â gwasanaethau/wardiau neu adrannau penodol.

Mae'r telerau a'r amodau yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gysylltu â'r Cadeirydd ar unwaith os bydd ei amgylchiadau'n newid yn ystod y penodiad. Felly, unwaith eto, yn achos y Cadeirydd dros dro, roedd yn ofynnol iddo gysylltu ag ACC i drafod gwrthdrawiad canfyddedig pan gafodd ei benodi i BIPBC.

- **Pa gamau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cymhwysedd yn Atodlen 2 i Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.**

<u>Ymateb</u>

Roedd yr holl ymgeiswyr yn hysbys i swyddogion yn Llywodraeth Cymru a gofynnwyd iddynt ddarparu bywgraffiad yn manylu ar eu profiad blaenorol.

Yn dilyn penodiad, gwnaed gwiriadau pellach i sicrhau cymhwysedd ar gyfer y rolau. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwiriad adnabod
- Yr Hawl i Weithio
- Gwiriad DBS Sylfaenol
- Cofrestr Ansolfedd a Methdaliad
- Chwilio Rhestr Cyfarwyddwr Gwaharddedig Tŷ'r Cwmnïau

Gwnaed pob penodiad yn amodol ar wiriadau boddhaol a byddai methu â bodloni unrhyw un o'r meini prawf cymhwysedd wedi arwain at derfynu'r penodiad.

- **Pa adrannau o Lywodraeth Cymru oedd yn rhan o'r broses benodi.**

<u>Ymateb</u>

Roedd dwy adran yn rhan o'r broses benodi cyn cyflwyno argymhellion i'm swyddfa:

- Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Uned Cyrff Cyhoeddus

- **Unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei hystyried yn berthnasol neu rydych o’r farn fyddai'n ddefnyddiol i ni mewn perthynas â'r penodiadau hyn.**

<u>Ymateb</u>

Yn unol â'r broses Penodiadau Cyhoeddus, ymgynghorodd swyddogion Llywodraeth Cymru â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus mewn perthynas â'r angen i wneud nifer o benodiadau brys i sefydlogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nododd y swyddogion y byddai angen gwneud y penodiadau heb y gystadleuaeth arferol ac esboniodd y rhesymau dros hyn.

Roedd swyddogion yn cydnabod bod y Cadeirydd yn benodiad sylweddol a fyddai fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnal Gwrandawiad Craffu Cyn Penodi cyn i mi gadarnhau'r penderfyniad fel Gweinidog. Byddwn yn falch o fynychu sesiwn graffu os yw Cadeirydd y Pwyllgor o'r farn bod hyn yn briodol.

**4. Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro perfformiad aelodau dros dro y Bwrdd yn ystod cyfnod eu penodiad.**

Ymateb

Mae'r broses safonol ar gyfer monitro perfformiad Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd yn cael ei chynnal gan Gadeirydd y bwrdd iechyd hwnnw gyda chefnogaeth gan y sefydliad (er enghraifft y tîm llywodraethiant corfforaethol neu swyddfa ysgrifennydd y bwrdd). Fy rôl i yw pennu amcanion ar gyfer y cadeirydd, cael gwybodaeth am ei berfformiad a chynnal yr arfarniadau perthnasol.

Gan fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn Mesurau Arbennig, mae'r broses ychydig yn wahanol, oherwydd y gwaith craffu ychwanegol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig iddo.

Rwyf wedi tynnu sylw yn adran un, at y prosesau sydd ar waith i ddwyn y Bwrdd i gyfrif drwy'r Fforwm Gwella Mesurau Arbennig a'm cyfarfodydd misol â'r Cadeirydd dros dro. Drwy'r mecanwaith hwn y byddaf yn monitro perfformiad aelodau'r Bwrdd dros dro. Yn dilyn fy nghyfarfod diweddaraf â'r Cadeirydd dros dro, rwyf wrthi'n cytuno ar nifer o amcanion gydag ef.

**5. Amlinellwch pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer sicrhau penodiadau parhaol i'r Bwrdd, gan gynnwys rolau’r Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac aelodau annibynnol y bwrdd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr amserlenni, dull recriwtio arfaethedig, ac unrhyw feini prawf penodol sy'n benodol i rôl neu feini prawf personol y disgwylir i ymgeiswyr eu dangos**

Ymateb

Mae'r broses recriwtio ar gyfer swydd wag yr Is-gadeirydd a dau Aelod Annibynnol yn mynd rhagddi. Gellir dod o hyd i'r hysbysebion a'r pecynnau ymgeisio yma ac yma. Bydd sesiwn i randdeiliaid ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer, a fydd yn cynnwys unigolion o'r bwrdd iechyd a sefydliadau partner. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan gyfweliad. Disgwylir i'r ddau gael eu cynnal ym mis Medi er mwyn galluogi aelodau'r bwrdd sylweddol i ymgymryd â'u penodiadau ym mis Hydref.

Bydd ail ymgyrch recriwtio i benodi Cadeirydd sylweddol a thri Aelod Annibynnol yn dechrau yn yr Hydref a bydd aelodau llwyddiannus yn cael eu penodi ym mis Mawrth 2024 pan ddaw telerau'r aelodau dros dro presennol i ben. Nid ydym wedi gorffen penderfynu ar sgiliau a phrofiad gofynnol deiliaid y swydd ar hyn o bryd; bydd hyn yn dibynnu ar ddadansoddiad o'r bwlch sgiliau yn dilyn y recriwtio ym mis Gorffennaf.

Mae'n bwysig nodi bod arweinyddiaeth dosturiol yn ofyniad allweddol ar gyfer y swyddi hyn.

Mae penodiadau parhaol am gyfnod o bedair blynedd eisoes wedi'u gwneud i ddwy o'r tair swydd lle mae angen proses enwebu. Aelodau Annibynnol y Brifysgol a'r

Awdurdod Lleol yw'r rhain. Mae penodiad Aelod Annibynnol yr Undebau Llafur hefyd ar fin digwydd.

**6. Byddai'r Pwyllgorau hefyd yn croesawu gwybodaeth am y broses a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer recriwtio penodiad o bwys i rôl y Prif Weithredwr yn y Bwrdd Iechyd.**

<u>Ymateb</u>

Rhoddodd Cadeirydd dros dro y bwrdd iechyd wybod i chi yn ystod ei sesiwn dystiolaeth ar 5 Gorffennaf 2023 y bydd Carol Shillabeer yn parhau yn ei swydd fel y Prif Weithredwr dros dro tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cytunodd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth y bwrdd iechyd ar hyn ym mis Gorffennaf 2023 a'i gyhoeddi i'r bwrdd iechyd ar 21 Gorffennaf 2023.

Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Cadeirydd dros dro i gytuno ar yr amser mwyaf priodol i ddechrau penodi'n barhaol i'r swydd hon.